

Bydd cariad yn y gwynt ar Ddydd Sant Ffolant eleni wrth i'r dref baratoi am gystadleuaeth arbennig.

Cynnyrch meddwl Cyngor Tref Y Rhyl ydy Dwi'n Caru Rhyl – cystadleuaeth i fusnesau lleol i nodi dydd y cariadon.

Gan ddefnyddio'r arwyddair Caru Rhyl, mae siopau'n cael eu hannog i addurno'u ffenestri, gyda'r gobaieth o ennill gwobrau ariannol.

Dywed Joan Butterfield, un o gynghorwyr Y Rhyl: "Rydyn ni'n awyddus i ymwneud â phob busnes yn Y Rhyl a dyma'r cam cyntaf yn y cyfeiriad hwnnw. Mae'n amlwg bod rhai cwmnïau a siopau gwirioneddol greadigol i'w cael yn Y Rhyl ac rydyn ni'n sicr y gallen nhw wneud ymdrech fawr ar gyfer Gŵyl Sant Ffolant. Byddwn yn cadw golwg am ffenestri wedi'u haddurno a fydd yn troi pennau a chodi curiad y galon. Yr unig amod ydy ein bod yn gofyn i gynnwys y geiriau Caru Rhyl yn y cynlluniau."

Bydd tîm o feirniaid yn crwydro'r dref ar ddydd Sadwrn, Chwefror 13 er mwyn dewis eu hoff ffenestri. I gofrestru, e-bostiwch hello@gunsmokecommunications.co.uk gan nodi Dwi'n Caru Rhyl ar eich e-bost.

Bydd y ceisiadau buddugol yn ymddangos ar y wefan hon yn ystod yr wythnos yn dechrau Chwefror 15.